Taflen Ffeithiau Cyfraith Martyn

Ddydd Llun 19 Tachwedd, cyhoeddodd y Llywodraeth fanylion y Ddyletswydd Diogelu, a gaiff bellach ei galw'n 'Gyfraith Martyn' er cof am Martyn Hett, a gafodd ei ladd ynghyd ag 21 o bobl eraill yn yr ymosodiad terfysgol yn Arena Manceinion yn 2017.

## Pam y mae angen Cyfraith Martyn arnom?

Mae 14 o ymosodiadau terfysgol wedi bod yn y DU ers 2017. Mae'r ymosodiadau trasig hyn wedi achosi marwolaethau ac anafiadau i bobl sydd allan yn byw eu bywydau pob dydd.

Mae'r bygythiad terfysgol rydym yn ei wynebu ar hyn o bryd yn amlhaenog ac yn amrywiol, ac mae'n datblygu'n barhaus. Yn hynny o beth, mae'n parhau i fod yn anodd rhagweld pa leoliadau y gallai terfysgwyr eu targedu gan ei bod yn anoddach canfod ac atal yr ymdrechion.

Mae angen i ni wella diogelwch a sicrhau bod mesurau cadarn, cymesur a chyson ar waith mewn mannau cyhoeddus er mwyn sicrhau y gallwn baratoi'n well a gwella diogelwch cyhoeddus, er mwyn ymateb i ymosodiadau posibl yn y dyfodol.

Rydym yn ymwybodol drwy ymgysylltu â diwydiant, heb orfodaeth gyfreithiol, nad yw ymdrechion diogelwch i atal terfysgaeth yn aml yn bodloni'r hyn sy'n ofynnol o dan y gyfraith. Mae'r broses o flaenoriaethu, ystyried a chymhwyso prosesau a mesurau diogelwch yn anghyson ar hyn o bryd.

## Beth y bydd Cyfraith Martyn yn ei wneud?

Bydd Cyfraith Martyn yn cadw pobl yn ddiogel, gan wella ein diogelwch gwladol a lleihau risg terfysgaeth i'r cyhoedd drwy ddiogelu lleoliadau cyhoeddus.

Bydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheini sy'n gyfrifol am leoliadau penodol ystyried y bygythiad sy'n gysylltiedig â therfysgaeth a rhoi mesurau lliniaru priodol a chymesur ar waith.

Bydd y ddeddfwriaeth yn sicrhau bod partïon wedi paratoi, eu bod yn barod i ymateb a'u bod yn gwybod beth i'w wneud os bydd

ymosodiad. Bydd systemau diogelwch uwch, hyfforddiant i staff a phrosesau cliriach yn cynnig gwell diogelwch.

## Pwy a gaiff eu cynnwys?

Bydd safleoedd yn cael eu cynnwys o fewn cwmpas y Ddyletswydd pan fydd “gweithgareddau cymwys” yn cael eu cynnal yno. Bydd hyn yn cynnwys lleoliadau at ddibenion fel adloniant a hamdden, manwerthu, bwyd a diod, amgueddfeydd ac orielau, caeau chwaraeon, mannau cyhoeddus mewn adeiladau Llywodraeth leol a chanolog (e.e., neuaddau tref), atyniadau ymwelwyr, digwyddiadau dros dro, mannau addoli, iechyd ac addysg.

Cynigir y bydd y Ddyletswydd yn berthnasol i leoliadau cymwys sydd yn un o'r canlynol: adeilad (gan gynnwys casgliadau o adeiladau a ddefnyddir at yr un dibenion, e.e., campws); lleoliad/digwyddiad (gan gynnwys digwyddiad dros dro) sydd â ffin benodol, sy'n golygu y gellir nodi'r capasiti. Caiff lleoliadau cymwys y mae eu huchafswm o ran deiliadaeth yn bodloni'r trothwyon penodol uchod eu cynnwys yn yr haen berthnasol.

Felly, caiff safle ei gynnwys yng nghwmpas y Ddyletswydd os bydd yn bodloni'r tri phrawf canlynol:

- Bod y safle yn gymwys – h.y., adeilad neu ddigwyddiad sydd â ffin benodol.
- Bod gweithgaredd cymwys yn cael ei gynnal yn y lleoliad;
- Bod uchafswm deiliadaeth y safle yn bodloni trothwy penodol – naill ai 100+ neu 800+

## Sut y bydd yn gweithio?

Bydd y Bil yn rhoi dyletswydd ar berchnogion a gweithredwyr lleoliadau penodol i fod yn fwy parod ar gyfer ymosodiad terfysgol ac i gynyddu eu mesurau diogelwch, drwy ei gwneud yn ofynnol iddynt gymryd camau cymesur, yn dibynnu ar faint a natur y gweithgareddau a gynhelir yno.

Mae cymesuredd yn ystyriaeth sylfaenol ar gyfer y ddeddfwriaeth hon. Felly, bydd yn sefydlu model haenog, sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd a gynhelir yn y lleoliad a'i gapasiti:

- Bydd **haen safonol** yn ysgogi canlyniadau da o ran parodrwydd. Bydd yn ofynnol i ddeiliaid dyletswydd gynnal gweithgareddau syml ond effeithiol i wella diogelwch amddiffynnol a pharodrwydd. Bydd hyn yn berthnasol i leoliadau cymwys sydd ag uchafswm capasiti o fwy na 100. Gallai hyn gynnwys siopau manwerthu, bariau neu fwytai mawr.
- Bydd **haen uwch** yn rhoi gofynion ychwanegol ar leoliadau capasiti uchel i gydnabod canlyniadau trychinebus posibl ymosodiad llwyddiannus. Bydd hyn yn berthnasol i leoliadau sydd â chapasiti o fwy nag 800 o bobl ar unrhyw adeg. Gallai hyn gynnwys lleoliadau cerddoriaeth fyw, theatrau a siopau adrannol.

## I bwy y bydd yn berthnasol?

Caiff safle ei gynnwys o fewn cwmpas Cyfraith Martyn pan fydd “gweithgareddau cymwys” yn cael eu cynnal yno. Bydd hyn yn cynnwys lleoliadau at ddibenion fel adloniant a hamdden, manwerthu, bwyd a diod, amgueddfeydd ac orielau, caeau chwaraeon, mannau cyhoeddus mewn adeiladau Llywodraeth leol a chanolog (e.e., neuaddau tref), atyniadau ymwelwyr, digwyddiadau dros dro, mannau addoli, iechyd ac addysg.

Caiff lleoliadau cymwys y mae eu huchafswm o ran deiliadaeth yn bodloni'r trothwyon penodol uchod eu cynnwys yn yr haen berthnasol.

Ceir rhai eithriadau ac esemptiadau cyfyngedig i'r Ddyletswydd. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau lle mae rheoliadau diogelwch trafnidiaeth eisoes yn berthnasol; a'r rhai sy'n wag am gyfnod rhesymol neu sydd wedi cau yn barhaol. Ni chaiff y rheini sydd â gofod llawr mawr a deiliadaeth weithredol isel (e.e., warysau a chyfleusterau storio) ynghyd â swyddfeydd a lleoliadau preswyl preifat, eu cynnwys.

## Beth y gofynnir i'r haen safonol ei wneud?

Bydd angen i ddeiliaid Dyletswydd Safonol gymryd camau hawdd a syml i gyflawni eu rhwymedigaethau. Bydd hyn yn cynnwys cwblhau hyfforddiant am ddim, codi ymwybyddiaeth a rhaeadru gwybodaeth i staff a chwblhau cynllun parodrwydd.

Y nod yw sicrhau bod staff yn fwy parod i ymateb yn gyflym i sefyllfaoedd sy'n datblygu, eu bod yn gwybod pa brosesau y dylent eu dilyn, a'u bod yn gallu gwneud penderfyniadau cyflym a chymryd camau a fydd yn achub bywydau. Gallai hyn fod mor syml â chloi drysau i rwystro ymosodwyr ac arwain staff a chwsmeriaid at allanfeydd amgen. Gallai hefyd olygu y bydd staff yn gallu rhoi triniaeth i achub bywydau wrth iddynt aros i'r gwasanaethau brys gyrraedd.

### Beth y gofynnir i'r haen uwch ei wneud?

Bydd angen asesiad risg a chynllun diogelwch, yr ystyrir eu bod yn cyrraedd safon 'ymarferol resymol'. Bydd hyn yn galluogi deiliaid Dyletswydd i asesu cydbwysedd lleihau risg yn erbyn yr amser, yr arian a'r ymdrech sy'n ofynnol i gyflawni lefel lwyddiannus o barodrwydd o ran diogelwch – safon a gydnabyddir mewn cyfundrefnau rheoleiddiol eraill (gan gynnwys Tân ac Iechyd a Diogelwch).

### Beth am leoliadau a gaiff eu rhedeg gan wirfoddolwyr?

Mae'r Llywodraeth yn awyddus i fannau addoli gael triniaeth benodol o dan y ddyletswydd, i adlewyrchu'r amrywiaeth bresennol o weithgareddau lliniaru a gyflawnir ac a ariennir gan y Llywodraeth i leihau pa mor agored ydynt i derfysgaeth a throseddau casineb. Caiff pob man addoli ei roi ar haen safonol y Ddyletswydd ni waeth beth fo'r capasiti, ac eithrio carfan fach o bob ffydd sy'n codi ffioedd mynediad i dwristiaid a/neu sy'n llogi'r safle ar gyfer digwyddiadau masnachol mawr.

Mae elusennau, grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol yn berchen ar amrywiaeth eang o leoliadau ac yn eu gweithredu (amgueddfeydd, safleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, lleoliadau cyhoeddus mawr e.e., y Tŷ Opera Brenhinol a'r Theatr Genedlaethol). Mae rhai sefydliadau hefyd yn llogi safleoedd i eraill at ddibenion amrywiol. Gan fod y rhan fwyaf o leoliadau y mae sefydliadau elusennol, grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol yn berchen arnynt neu'n eu gweithredu yn debygol o fod islaw'r trothwy capasiti o 800+, mae'r Llywodraeth yn ystyried bod y gofynion yn gymesur.

### A fydd hyn yn effeithio ar hygyrchedd?

Bydd gofynion y Ddyletswydd yn amrywio ond, i lawer, byddent yn cynnwys newidiadau i systemau a phrosesau diogelwch, a'r ffordd y caiff staff eu hyfforddi. Yn hyn o beth, mae'n debygol y bydd llawer o'r newidiadau a ysgogir gan y Ddyletswydd yn rhai ‘y tu ôl i'r llenni’ na fyddai'r cyhoedd yn sylwi arnynt. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd nodweddion diogelwch ffisegol yn amlwg i'r cyhoedd ond ni ddylent fyth effeithio ar hygyrchedd.

**Sut y caiff Cyfraith Martyn ei gorfodi?**

Caiff galluogrwydd arolygu ei sefydlu gyda'r nod o addysgu, cynghori a sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd. Lle y bo angen, bydd yr arolygiaeth yn defnyddio amrywiaeth o gosbau i sicrhau yr eir i'r afael yn effeithiol ag achosion o dorri'r gyfraith.

**Sut y byddwch yn sicrhau nad yw hyn yn creu baich ddiangen ar fusnesau?**

Mae ymgynghori a chysylltu'n barhaus â'r gymuned fusnes yn rhan hanfodol o'n dull gweithredu. Mae'r Llywodraeth wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r effaith ar safleoedd a lleoliadau a all gael eu cynnwys. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod yr hyn sy'n ofynnol gan ddeiliaid Dyletswydd yn gymesur, ond ei fod ar yr un pryd gyflawni diogelwch cyhoeddus gwell, a hynny heb roi baich ddiangen ar bartïon sy'n gyfrifol am fannau cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'n rhesymol y dylai llawer o leoliadau gymryd mesurau priodol a chymesur i ddiogelu eu staff a'r cyhoedd.

**A oes cefnogaeth i'r ddeddfwriaeth hon?**

Mae Manchester Arena Inquiry Volume One Report yn argymell yn gryf y dylid cyflwyno dyletswydd er mwyn gwella diogelwch a diogeledd lleoliadau cyhoeddus.

Gwnaeth cwestau London Bridge a Borough Market hefyd argymell y dylid cyflwyno deddfwriaeth a fyddai'n llywodraethu dyletswyddau awdurdodau cyhoeddus mewn perthynas â diogelwch amddiffynnol.

Roedd saith o bob deg ymatebydd i ymgynghoriad y Ddyletswydd Diogelu yn cytuno y dylai'r rheini sy'n gyfrifol am leoliadau lle ceir mynediad i'r cyhoedd gymryd mesurau priodol a chymesur i ddiogelu'r cyhoedd rhag ymosodiadau. Daeth yr ymgynghoriad 18 wythnos o

hyd hwn i ben ar 2 Gorffennaf 2021 a daeth 2,755 o ymatebion i law gan amrywiaeth eang o gyfranogwyr o bob cwr o'r DU.

Mae Figen Murray a thîm ymgyrchu Cyfraith Martyn wedi ymgyrchu'n ddiflino i gyflwyno deddfwriaeth newydd. Mae eu hymdrechion wedi helpu'r Llywodraeth i godi ymwybyddiaeth o'r mater pwysig hwn. Mae'r cydweithredu yn parhau wrth i ni ymgysylltu â'r cyhoedd a phartneriaid o'r diwydiant i drafod sut y gallwn gydweithio er mwyn gwella diogelwch cyhoeddus.

Mae'r cynigion hyd yma wedi cael croeso da gan y gymuned diogelwch a chroesawyd ymrwymiad y Llywodraeth i'r diwygiad hwn yn eang yn Senedd y DU, lle roedd Aelodau'r ddau Dŷ yn cydnabod pwysigrwydd gwella diogelwch a diogeledd i'n dinasyddion, fel y gallant fyw eu bywydau heb ofn.

**A fydd Cyfraith Martyn yn berthnasol i'r DU gyfan?**

Bydd.  Bydd y ddeddfwriaeth yn berthnasol ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, gan fod diogelwch gwladol yn fater a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU.

**Pryd y caiff y ddeddfwriaeth bwysig hon ei chyflwyno?**

Bydd y Llywodraeth yn cyflwyno'r Ddyletswydd Diogelu cyn gynted ag y bydd amser seneddol yn caniatáu hynny.

**Pryd y daw'r Ddyletswydd Diogelu yn gyfraith?**

Nid yw'n bosibl rhoi dyddiad. Bydd amser arwain sy'n galluogi'r rheini sy'n cael eu cynnwys yn y Ddyletswydd i baratoi ar gyfer ei chychwyn, a chyn gynted ag y bydd yr amserlen seneddol yn hysbys, caiff hyn ei nodi.

**Beth ydych chi'n ei wneud i sicrhau bod gan fannau cyhoeddus ddiogelwch priodol cyn i Gyfraith Martyn gael ei rhoi ar waith?**

Dim ond un rhan o'n hymdrechion eang ym mhob rhan o'r Llywodraeth i oresgyn bygythiad terfysgaeth, gan gynnwys ymdrechion gan yr heddlu a'r gwasanaethau diogelwch, yw Cyfraith Martyn. Mae rhaglen arweiniad eang ar waith o hyd a ddatblygwyd gan arbenigwyr diogelwch, Plismona Gwrthderfysgaeth a phartneriaid eraill i roi cyngor o ansawdd uchel i randdeiliaid ac eraill sy'n gyfrifol

am fannau cyhoeddus. Mae llawer o fusnesau a sefydliadau eisoes yn gwneud gwaith gwych i wella eu diogelwch a'u parodrwydd – fodd bynnag, mae'r ffaith nad oedd unrhyw ofynion deddfwriaethol wedi arwain at anghysonderau a diffyg eglurder o ran atebolrwydd ar adegau. Mae'r Llywodraeth am unioni'r sefyllfa hon drwy'r diwygiad hwn.

## Sut y caiff fy musnes ei gefnogi mewn perthynas â Chyfraith Martyn?

Rhoddir arweiniad a chymorth penodol ar gyfer Cyfraith Martyn, er mwyn sicrhau bod y rheini a gwmpesir yn cael y wybodaeth ofynnol am beth i'w wneud a'r ffordd orau o wneud hynny. Fel rhan o'r dull gweithredu hwn, byddwn yn ehangu'r cymorth sydd ar gael i'r rheini sy'n gyfrifol am sicrhau diogelwch mewn mannau cyhoeddus.

Mae llwyfan ar-lein newydd wedi cael ei ddatblygu gan y Swyddfa Diogelwch Gwrthderfysgaeth Genedlaethol (NaCTSO), y Swyddfa Gartref a Pool Reinsurance er mwyn helpu'r rheini sydd am wella eu diogelwch amddiffynnol. Hwb canolog, cyfunol yw ProtectUK sy'n cynnig arweiniad, cyngor, addysg a phrosesau ymgysylltu y gellir ymddiried ynddynt gan arbenigwyr ym maes diogelwch a materion gwrthderfysgaeth. Dyma fydd y prif adnodd o ran cael mynediad am ddim bob awr o'r dydd a'r nos i'r wybodaeth ddiweddaraf am ddiogelwch amddiffynnol a chaiff ei ddiweddaru'n rheolaidd â chynnwys newydd diddorol a mwy o nodweddion.